Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Newidiadau i ofynion cyfreithiol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi, o ddydd Llun, 28 Mawrth 2022:

- Ni fydd gorchuddion wyneb yn ofynnol mwyach yn ôl y gyfraith mewn lleoliadau manwerthu ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Byddant yn parhau i gael eu hargymell mewn cyngor iechyd cyhoeddus

- Bydd y gofyniad i hunanynysu yn symud i fod yn ganllaw. Bydd y taliad hunanynysu o £500 i gefnogi pobl yn parhau i fod ar gael tan fis Mehefin 2022

Bydd dau ofyniad cyfreithiol yn parhau oherwydd y cynnydd sydyn mewn achosion o'r coronafeirws yn ystod yr wythnosau diwethaf:

- Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

- Mae'n parhau i fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau gynnal asesiad risg coronafeirws a gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg

I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-reoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-16

Mae'r canllawiau presennol ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

# YMGYRCH: Gadewch i ni roi hwb i wariant lleol ar gyfer Sul y Mamau #SulYMamau #PrynuLleol #CefnogiLleol

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol drwy gydol y gwanwyn yn parhau. Mae pecyn adnoddau i chi ei ddefnyddio, sy'n cynnwys negeseuon ar gyfer y cyfryngau a fideo wedi'i gomisiynu'n arbennig, ynghyd â GIFs a logos, ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://bit.ly/3KXqZaa

Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Bydd rhagor o ymgyrchoedd Prynu'n Lleol yn rhedeg drwy'r flwyddyn. I gymryd rhan, cysylltwch â:

prynulleol@gwynedd.llyw.cymru

## GWOBRAU: Cwmnïau o Wynedd ar restr fer Gwobrau Busnes Daily Post/North Wales Live

Llongyfarchiadau i Scuba Escape o Lanberis, Distyllfa Whisgi Aber Falls, parlwr hufen iâ a pizzeria Glaslyn (Beddgelert), The Little Wren (Caernarfon) a Gwasanaeth Bwyd Harlech ar restr fer Gwobrau Busnes Daily Post/North Wales Live a gynhelir ddydd Iau, 31 Mawrth 2022 ym Mhrifysgol Bangor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:

https://bit.ly/3woB4co

## RHEOLIADAU: Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

O 21 Mawrth 2022, daeth cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon. Mae adnoddau a gwybodaeth gefndir am y newid yn y gyfraith i sectorau sy'n gweithio efo plant ar gael ar:

https://llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-yng-nghymru

## TECH: Gweithdy FFIWS Caernarfon 28 Mawrth 2022

Cynhelir gweithdy ar sut i ddefnyddio'r offer – gan gynnwys argraffwyr 3D, torwyr laser a dyfeisiau sublimation – yng ngofod

gwneud Ffiws dros dro M-SParc #ArYLôn yn 18 Stryd y Plas, Caernarfon ar 28 Mawrth 2022 (9:30am-4:00pm). Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3JCgnxb

Mae gwybodaeth pellach am Ffiws ar:

http://www.m-sparc.com/cy/ffiws

## BREXIT: Diweddariadau canllawiau ar gyfer y sector drafnidiaeth

- Beth sydd angen i gwmnïau trafnidiaeth a chludwyr ei wneud i ddefnyddio faniau a cheir a threlars dros 2.5 tunnell i gludo nwyddau yn Ewrop o 21 Mai 2022: https://bit.ly/3yGS0dd

- Rheolau newydd ar gyfer cludo nwyddau i, drwy neu o fewn Ewrop gan ddefnyddio ceir a threlars, faniau a HGVs: https://bit.ly/3LbuZnU

- Yr hyn y mae angen i weithredwyr cerbydau nwyddau'r DU ei wneud i gludo nwyddau ar y ffyrdd rhyngwladol: https://www.gov.uk/guidance/carry-out-international-road-haulage

- Gwasanaethau a theithiau bws neu goets rhyngwladol – dogfennau gyrrwr: https://bit.ly/3hK15JE

- Cludiant ffyrdd rhyngwladol: Dogfennau gyrrwr cerbyd nwyddau trwm (HGV): https://bit.ly/3b90PCK

# RHEOLIADAU: Effaith sancsiynau Rwsiaidd y DU ar fusnesau

Ceir gwybodaeth fanwl am effaith sancsiynau Rwsia'r DU ar fusnesau ar wefan Busnes Cymru ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/effaith-sancsiynau-rwsiaidd-y-du-ar-fusnesau

# AROLWG: Arolwg STEAM Gwynedd 2021 – busnesau llety

Gofynnir i fusnesau llety gwblhau Arolwg STEAM Gwynedd 2021 cyn 8 Ebrill 2022. Mae'r arolwg yn bwriadu cael darlun cywir a chyflawn o nifer yr ymwelwyr, a chyfrifo gwerth twristiaeth i Wynedd yn 2021. Mae'r canlyniadau yn helpu i benderfynu faint o arian bydd Gwynedd yn ei dderbyn tuag at y gost o wasanaethu mwy o bobl. Cymerwch ran, os gwelwch yn dda, trwy fynd i:

https://bit.ly/ArolwgSTEAMGwynedd2021

# DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Cyfres Bychan Effaith Cymdeithasol

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn cynnig dau weithdy hanner diwrnod ar-lein am ddim i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru, i'w helpu i ddysgu sut i fesur eu heffaith gymdeithasol. Am wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

- 6 Ebrill 2022:
  https://bit.ly/3DoRTFL

- 8 Mehefin 2022:
  https://bit.ly/3JHEw5D

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru